# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Chwefror 2016

Amser: 09.01 - 09.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3349

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | William Powell AC (Cadeirydd)<br>Russell George AC<br>Lindsay Whittle AC (yn lle Bethan Jenkins AC)<br>Joyce Watson AC |
| Staff y Pwyllgor: | Steve George (Clerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Gill Eveleigh (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF102KB) Gweld fel HTML (80KB).

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins.

Dirprwyodd Lindsay Whittle ar ran Bethan Jenkins yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-668 Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari (CA125 Prawf Gwaed)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am ei farn am gwestiynau manwl y deisebydd, ac yn arbennig, pam nad oes camau'n cael eu cymryd ar unwaith i gyflwyno sgrinio, o gofio bod Treial Cydweithredol y DU o Sgrinio am Ganser yr Ofari (UKCTOCS) wedi dangos y gallai prawf gwaed blynyddol helpu i leihau'r nifer o fenywod sy'n marw o ganser o tua 20%; ac
- argymell bod y Pwyllgor newydd yn ystyried gwneud darn byr o waith ar y mater.

### 2.2 P-04-669 Diddymwch Ddeddfwriaeth Rhentu Doeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i'w chau. Wrth wneud hynny, ystyriwyd y ffaith bod y Cynulliad ond newydd basio Deddf Tai (Cymru) 2014 ac nad yw wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn eto.

### 2.3 P-04-670 Ffilm am Owain Glyndŵr

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a:

- chroesawodd yr ymateb gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; a
- chytunodd i aros am ymateb y deisebydd cyn ystyried y ddeiseb ymhellach.

### 2.4 P-04-671 Cyfreithloni Cymorth i Farw

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunwyd i:

- gau'r ddeiseb o ystyried na ddylai fod wedi cael ei chyfrif yn dderbyniol adeg ei chyflwyno oherwydd yr ymddengys nad oes gan y Cynulliad y pŵer i weithredu'r ddeiseb; ac
- wrth ysgrifennu at y deisebydd, cynnwys linc i'r trawsgrifiad o ddadl y Cyfarfod Llawn ar y mater a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2014.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-655 Mynnu ein Hawliau i'r Gymraeg yn y Sector Breifat

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i ysgrifennu at:

- Gomisiynydd y Gymraeg a'r Prif Weinidog i ofyn am eu barn am sylwadau'r deisebydd;
- y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sydd wedi cymryd tystiolaeth lafar yn ddiweddar gan y Comisiynydd ynghylch y pwynt hwn, i ofyn iddo ystyried sylwadau'r deisebwyr yn dilyn y sesiwn dystiolaeth honno a'r amserlen ar gyfer cwblhau eu gwaith ar y mater.

### 3.2 P-04-648 Ceisiadau Cynllunio Nwy ac Olew Anghonfensiynol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i gael y wybodaeth ddiweddaraf a addawodd y Gweinidog a'i hystyried bryd hynny, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach gan y deisebydd.

### 3.3 P-04-572 Grantiau ar gyfer Gwrthsefyll Llifogydd

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ac Emyr Roberts, Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru i ofyn eu barn ar y gwahaniaeth sydd i'w weld o ran y camau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru a Lloegr;
- disgwyl yr ymateb gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain; a
- gofyn am nodyn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn nodi'r gwahaniaeth o ran y camau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru a Lloegr.

### 3.4 P-04-547 Gwahardd Deunydd Pacio Polystyren ar gyfer Bwyd a Diod Cyflym

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunwyd i:

- disgwyl barn y deisebydd;
- ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn gofyn iddo roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y gwaith a gomisiynodd gan Gadw Cymru'n Daclus ynghylch sbwriel polystyren a'i effaith ar yr amgylchedd ac ar bob math o sbwriel arfordirol yng Nghymru, er mwyn canfod meysydd blaenoriaeth ar gyfer eu gwella; a

- rhannu'r wybodaeth a gafwyd gan Gyngor Dinas Rhydychen gyda Rob Curtis, y prif ddeisebydd, a Gill Bell, Rheolwr Rhaglen Cymru ar gyfer y Gymdeithas Cadwraeth Forol.

### 3.5 P-04-539 Achub Cyfnewidfa Lo Caerdydd

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i gael sylwadau'r deisebydd am lythyr y Gweinidog cyn trafod y ddeiseb eto.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 Gweithredu ar Ddeisebau Agored ar ddiwedd y Cynulliad Presennol

Cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor y byddai deisebau'n cael eu gadael yn agored i'r Pwyllgor newydd eu trafod yn y Pumed Cynulliad.

Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ystyried rhestr o ddeisebau segur, gyda'r posibilrwydd o'u cau mewn cyfarfod yn y dyfodol.